

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Gwersi Beiblaidd o Lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae “ch”, “dd”, “ff”, “ng”, “ll”, “ph”, “rh” ac “th” yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau a rhoddir nhw mewn dau flwch ar wahân



**DARLLENWCH**  
Exodus 12: 1-14,  
29-36 a 50-51



**ADNOD**  
**ALLWEDDOL**  
Exodus 12: 13

### Gwers 1 Moses – Oen y Pasg

Roedd yr Israeliaid yn dal yn yr Aifft. Roedd Duw wedi anfon naw cosb neu bla ofnadwy. Yn ystod pob pla, addawodd Pharo ryddhau'r caethweision, ond cyn gynted ag y byddai Duw'n dod â'r pla i ben, newidiai ei feddwl. Roedd Duw nawr yn mynd i anfon un pla olaf. I'r Eifftiaid dyma fyddai'r pla mwyaf erchyll, ond byddai'n dod â gwaredigaeth i'r Israeliaid. Rhoddodd Duw gyfarwyddiadau pwysig i'r Israeliaid er mwyn iddynt gael eu gwarchod yn ystod y pla olaf hwn.

#### **C** Ar y calendr, rhowch:-

- O** ar y dyddiad roedden nhw i ddewis yr oen.  
**X** ar y dyddiad roedden nhw i ladd yr oen.

#### Y MIS CYNTAF


1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

2

#### **C** Darllenwch adnod 5 ac ysgrifennwch frawddeg am sut oen roedden nhw i'w ddewis.

2

#### **C** Rhowch X ar y manau hynny ar y drws lle roedden nhw i daenu'r gwaed.



2

#### **C** Ysgrifennwch y rhan honno o'r Adnod Allweddol sy'n sôn am yr hyn ddywedodd Duw fyddai'n digwydd pan oedd y gwaed ar y drws.

1

Ar ôl gwneud hyn, roedd trigolion y tŷ yn gwbl ddiogel. Wedyn, roedden nhw i fwyta Gwledd y Pasg a bod yn barod i adael.

**C Llanwch y fwydlen a'r manylion am sut roedden nhw i fwyta'r wledd. (Gweler adnodau 8 ac 11)**

BWYDLEN	
1	.....
2	.....
3	.....



yn



ar

5

Syrthiodd barn Duw ar yr Aifft, yn union fel y dywedodd Ef.


**C Dangoswch yr amser ar yr oriawr pryd y bu farw pob cyntaf-anedig o blith teuluoedd yr Eifftiaid.**



Effeithiodd hyn ar bob teulu yn yr Aifft, ar deulu Pharo yn ei balas hyd yn oed, ond ddaeth dim niwed i'r rhai oedd wedi taenu gwaed yr oen ar ddau bost a chapau eu drws.

1

**C Beth ddywedodd Pharo wrth Moses ar ôl i'r pla ddigwydd?**



1

Gadawodd yr Israeliaid yr Aifft ar frys. Cychwynnodd miloedd ohonyn nhw ar y daith i Wlad yr Adnewid – gwlad roedd Duw wedi ei haddo iddynt – gan gario anrhegion a gawsant gan yr Eifftiaid.

**C Aildrefnwch y tri pheth gafodd yr Israeliaid gan yr Eifftiaid.**

r a u                      i a r n a                      l l i d a d  
 \_ \_ \_ \_                      \_ \_ \_ \_ \_                      \_ \_ \_ \_ \_

3

Mae'r ffordd y gwaredodd Duw yr Israeliaid yn ddarlun clir iawn o gynllun Duw i'n hachub ni.

**C Edrychwch ar 1 Ioan 1:7 a llanwch y tri bwlch yn y tabl isod.**

	ISRAELIAID	NI
Gwared o	Yr Aifft	_ _ _ _ _
Gan	Waed _ _ _	waed _ _ _ _ _

3

Mae'r Beibl yn esbonio mai'r Arglwydd Iesu yw "Oen Duw", a ddewiswyd i gymryd ein pechodau. Bydd Ei waed Ef yn dod yn werthfawr i ni'n bersonol pan fyddwn ni'n Ei dderbyn Ef yn Waredwr, oherwydd dyma'r unig beth sy'n ein glanhau o'n holl bechodau ac yn ein gwneud ni'n barod ar gyfer y Nefoedd.



DARLLENWCH  
Exodus 13: 20-22,  
14: 5-14 a 19-31



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Exodus 14: 14

## Gwers 2 Moses – Y Môr Coch

Pe baech chi'n mynd ar daith hir mewn car i rywle oedd yn ddieithr i chi, mae'n debyg y byddai angen help ar y gyrrwr i ddod o hyd i'r ffordd.

### C Ysgrifennwch enwau'r ddau beth fyddai'n ddefnyddiol



-----






Roedd Duw wedi dod â'r Israeliaid allan o'r Aiff ac roedd Ef nawr yn eu harwain i wlad newydd fyddai'n eiddo iddyn nhw – Gwlad yr Addewid.

### C Ysgrifennwch ar y lluniau beth ddefnyddiodd Duw i'w harwain ar eu taith.

yn ystod y dydd

gyda'r nos




Yn y cyfamser, nôl yn yr Aiff, sylweddolodd Pharo fod yr Israeliaid yn wir wedi mynd. Gan eu bod wedi gadael, roedd yn flin ganddo ei fod wedi caniatáu iddyn nhw fynd.

### C Pam newidiodd Pharo ei feddwl?



Penderfynodd fod rhaid iddo fynd ar ôl yr Israeliaid a dod â nhw nôl.

### C Pa dri pheth yn ôl adnod 9 aeth Pharo gydag e?





### C Ysgrifennwch y geiriau cywir o dan bob pennawd i ddisgrifio sut roedd yr Israeliaid yn teimlo.

hapus / ofnus / blin / diogel

Wrth ddechrau ar eu taith.  
a

Pan sylweddolon nhw fod Pharo yn eu dilyn.  
a

Roedd yn rhaid i Moses gyflawni tasg anodd, sef eu cysuro. Mae'n rhaid bod y sefyllfa yn edrych yn gwbl amhosibl – roedd y Môr Coch o'u blaen a'r Eifftiaid o'u hôl. Doedd dim modd i Moses wneud unrhyw beth i achub y bobl, ond roedd e'n gallu eu hatgoffa am UN oedd yn medru helpu.

**C Edrychwch ar yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch eiriau Moses.**

--	--

1

## CHWILAIR

Chwiliwch yn y Chwilair am y geiriau sydd ar goll yn y brawddegau hyn. Lliwiwch nhw, ac yna ysgrifennwch nhw yn y bylchau.

1. Dywedodd Duw wrth Moses am estyn ei .....
2. Anfonodd Duw wynt cryf o'r .....
3. Holltwyd y môr a ffurfiwyd ..... ar y naill ochr a'r llall.
4. Cerddodd yr Israeliaid ar dir .....

D	N	A	H	L	O	M
D	W	Y	R	A	I	N
O	D	R	S	W	E	L
O	R	U	E	R	P	W
D	T	M	H	C	Y	S

**C Yn ôl y Beibl, pwy drefnodd y digwyddiad rhyfeddol hwn?**

\_\_\_ A \_\_\_

5

**C Beth ddigwyddodd cyn gynted ag y croesodd yr Israeliaid? Edrychwch ar adnodau 23-28.**

**Gosodwch y brawddegau isod yn eu trefn, drwy rifo'r blychau o 1 i 4.**

- Boddwyd Pharo a'i fyddin.
- Dywedodd Duw wrth Moses am estyn ei law er mwyn i'r môr ymrannu.
- Aeth Pharo a'i filwyr ar eu hôl.
- Trefnodd Duw fod yr Eifftiaid yn ei chael hi'n anodd gyrru eu cerbydau.


4

**C Pa adnod sy'n dweud wrthym fod gweld nerth Duw yn cael ei ddangos fel hyn wedi helpu'r Israeliaid i ymddiried yn fwy yn Nuw?**

1

*Mae Duw eisiau i ni sylweddoli y bydd Ef yn defnyddio Ei nerth i'n helpu pan fyddwn ni mewn trafferth, os ydym ni'n eiddo Iddo Ef.  
Does dim rhaid i ni ofni - bydd Ef gyda ni i'n helpu*

*Mor fawr yw ein Duw,  
Â'i Enw'n gytûn,  
Mae E'n ddigyfnewid,  
Byth bythoedd yr un.  
Y Môr Coch agorodd  
Er ei donnau a'i li  
Ac fe dd'wedodd 'Ni'ch gadawaf  
Rhowch eich ffydd ynof i'.*



--



DARLLENWCH  
Exodus 17: 1-16




ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Pedr 5: 7

### Gwers 3 Moses: Y Daith Anodd

Roedd yr Israeliaid wedi cael profiad arbennig o Dduw ar ddechrau eu taith. Roedden nhw wedi profi bod ganddyn nhw Dduw nerthol ac na fyddai Ef yn eu gadael pan fyddai pethau'n anodd.

**C** Ar y map, ysgrifennwch enwau'r lleoedd roedden nhw wedi ymweld â nhw hyd yma.



4

**C** Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dweud wrthym am ddwy broblem a wynebodd yr Israeliaid ar eu taith. Cawn weld sut y gwnaethon nhw ymdopi â'r rhain. Cawn weld hefyd a ddysgon nhw mewn gwirionedd i ddibynnu ar Dduw.

#### PROBLEM 1. (Llanwch y bylchau isod)

Achos?	Beth wnaethon nhw?	Ateb
Doedd ganddyn nhw ddim .....	Dechreuon nhw .....	Dyweddodd Duw wrth Moses am daro'r ..... gyda'i.....

4


Roedd ymateb yr Israeliaid i'r broblem hon yn un drist iawn. Nid yn unig roedden nhw'n cwyno wrth Moses, ond roedden nhw hefyd yn amau presenoldeb Duw a'i allu Ef i'w cynorthwyo. Yn ogystal â gofyn am ddŵr, roedden nhw hefyd yn profi Duw drwy ofyn cwestiwn arall.

**C** Edrychwch ar adnod 7 ac ysgrifennwch y cwestiwn isod.

\_\_\_\_\_

1

**PROBLEM 2. (Llanwch y bylchau isod)**

Achos?	Beth wnaethon nhw?	Ateb
 <p>Daeth gelyn o'r enw .....</p> <p>i ymosod ar yr Israeliaid.</p>	<p>..... oedd yn gyfrifol am y fyddin.</p> <p>Aeth Moses i ben y .....</p> <p>Roedd codi ei ..... yn ffordd o ddangos eu bod nhw'n dibynnu ar Dduw.</p> 	 <p>Israeliaid yn ennill / colli</p>  <p>ennill / colli</p> <p><b>Edrychwch ar y lluniau uchod a rhowch linell drwy'r ateb anghywir.</b></p>  <p><b>Ysgrifennwch enwau cynorthwywyr Moses.</b></p> <p>_____</p> <p>_____</p>

8

**C** Pa adnod sy'n dweud wrthym i Josua ennill y fuddugoliaeth yn y pen draw?

Adnod

1

**C** Beth adeiladodd Moses fel arwydd o'i ddiolchgarwch i Dduw?

1

**Mae Duw eisiau i ni ymddiried ynddo Ef BOB amser.**

Gallwn ni ddangos ein bod yn ymddiried yn Nuw drwy sôn wrtho Ef mewn gweddi am y problemau rydyn ni'n eu hwynebu. Mae'r Adnod Allweddol yn esbonio sut y gallwn ni wneud hyn.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

1



DARLLENWCH  
Numeri 21:4-9,  
Ioan 3:1-2 ac 14-16



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 3:14

## Gwers 4 Moses: Y Sarff Bres

Bron ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd y bobl yn dal i grwydro yn yr anialwch. Pan ddaethon nhw'n agos i Wlad yr Addewid am y tro cyntaf, doedden nhw ddim yn credu y byddai Duw yn gallu eu harwain i mewn iddi, felly cosbodd Duw'r bobl drwy eu hanfon yn ôl i grwydro yn yr anialwch. Erbyn hyn, roedd cenhedlaeth newydd o blant yr Israeliaid wedi tyfu'n oedolion. Yn anffodus, roedden nhw'n dal i rwgnach yn erbyn Duw.

### C Llanwch y bylchau gyda'u cwynion



Pam y  
daethoch  
â ni o'r  
A \_\_\_\_\_.



Does dim  
digon  
o \_\_\_\_\_.



Mae'r  
\_\_\_\_\_ yn  
wael.

3

Roedd hyn yn digio Duw!

### C Defnyddiwch saethau i gysylltu dechrau a diwedd y brawddegau er mwyn esbonio beth ddigwyddodd wedyn.

Anfonodd Duw

Cafodd y bobl eu

Bu farw nifer o'r Israeliaid

Daeth y bobl

Gweddiodd Moses

brathu.

at Moses.

seirff gwenwynig.


ar Dduw.

o'u brathiadau.



5


### C Beth gyffesodd y bobl pan ddaethant at Moses?



1

Roedd Duw yn falch pan gyffesodd y bobl eu troseddau.  
Mae Duw eisiau i ninnau hefyd gyffesu ein troseddau (neu bechodau).

### C Ar y polyn, tynnwch lun beth roedd Duw eisiau i Moses osod arno.



1

**C** O beth roedd y sarff wedi ei gwneud? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

aur haearn pren efydd pres

**C** Ysgrifennwch y geiriau sy'n dweud beth roedd yn rhaid i'r bobl ei wneud a beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny.

\_\_\_\_\_ a \_\_\_\_\_.

Flynyddoedd lawer wedi hyn, soniodd yr Arglwydd Iesu am y stori hon wrth un dyn arbennig.


**C** Edrychwch ar Ioan 3: 1 a 2. Tanlinellwch yr atebion cywir:

Enw'r dyn oedd Sachus / Nicodemus / Ioan  
Bu'n siarad â Iesu ar ganol dydd / yn y bore / liw nos.

Esboniodd yr Arglwydd Iesu y byddai Ef hefyd yn cael ei godi a'i osod ar rywbeth, yn union fel roedd Moses wedi gosod y sarff ar bolyn.

**C** Lliwiwch bob siâp sy'n cynnwys dot er mwyn darganfod ar beth fyddai Iesu yn cael ei ddyrchafu, ac ysgrifennwch yr ateb ar y llinell isod.



Ar .....

Roedd yr Arglwydd Iesu'n gwybod mai dyma pam roedd Ef wedi dod i'r byd. Mae pob un ohonom wedi pechu yn erbyn Duw, ond drwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu, mae Duw wedi darparu ffordd i ni gael ein hachub o'n pechodau.

**C** Llanwch y bylchau â'r geiriau cywir:

Drwy edrych ar y sarff ar y polyn, achubwyd yr Israeliaid rhag \_\_\_\_\_.  
Credw ym marwolaeth Iesu yw'r unig beth sydd ei angen arnom er mwyn i ni gael ein hachub, yna cawn f \_\_\_\_\_ t \_\_\_\_\_.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

cyfanswm

Marciau  
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm  
Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120